Cofnodion **CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd am 6.00pm ar 17 Rhagfyr 2025.

## PRESENNOL

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

M. Blackwell, Mrs M. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, W. Price, Ms R. S. Roberts, Mrs V. Roberts, A. R. Rutherford, D. Simmons a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref
Mrs R. A. Wheatley – Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Chymorth Gweinyddol

## 112. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs S. L. Connolly, Mrs J. M. Evans, A. R. James, J. Kenney a Mrs D. L. King.

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, y trafodion drwy arwain pawb a oedd yn dymuno gwneud hynny mewn gweddi.

Diolchwyd i'r Parchedig Helen am ei harweiniad a'i chymorth i bobl y Rhyl a'r Cyngor Tref yn ystod ei chyfnod yma, gan nodi mai hwn oedd ei chyfarfod olaf.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

## 113. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan aelodau unrhyw fuddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 114. SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED

Cynghorodd Clerc y Dref mai'r dyddiad cau i 10 etholwyr wneud cais am etholiad oedd 12 Rhagfyr, ond nad oedd wedi clywed gan Swyddfa Etholiadau Cyngor Sir Ddinbych hyd yma ynghylch a fyddai etholiad yn cael ei gynnal ai peidio.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r wybodaeth.*

## 115. COFNODION

Cyfarfod y Cyngor - 19 Tachwedd 2025 - Cofnodion rhifau 94-111

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio - 19 Tachwedd 2025 - Cofnodion rhifau 19-23

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

**116. ADRODDIAD Y MAER**

Cyflwynodd y Maer fanylion y digwyddiadau y bu ef a'r Dirprwy Faer yn bresennol ynddynt yn ystod y mis diwethaf (dosbarthwyd gyda'r agenda). Cyfeiriodd y Maer yn benodol at oleuo'r goleuadau Nadolig a rhai o'r lluniau rhagorol a dynnwyd ar y noson a'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y Maer yn dymuno diolch i Mrs Skeffington yn enwedig.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**117. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MIS MAI 2025 (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| 2101 | BT | 378.00 | Neuadd y Dref – gwasanaethau band eang |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2111 | O2 | 79.38 | Ffôn symudol x 3 |
| Amherthnasol | Tesco | 9.00 | Ffôn symudol |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi Annomestig Swyddfeydd Dinesig Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 8 o 10 |
| 2104 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 9,338.93 | Tâl net pedwar aelod o staff – mis Tachwedd 2025 |
| 2102 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,763.74 | Talu wrth Ennill – mis Hydref 2025 |
| 2103 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,737.81 | Cyfraniadau pensiwn – mis Hydref 2025 |
| 2034 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau Budd-daliadau – taliad 7 o 12 yn 2025/26 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **19,406.69** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 205.75 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 944.57 |

| | Cyfanswm yr incwm | 1,150.32 |
|---|---|---|

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 118. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2129 | Stuart Parry (Biwglwr) | Cyfraniad am ei wasanaeth ar Sul y Cofio | £30.00 |
| 2137 | Canva Pro | Tanysgrifiad am feddalwedd gwaith celf | £100.00 |
| 2138 | Cyngor Tref Bae Colwyn | Noson Swper a Chwis Elusennol 12 Ionawr 2026 – 1 tocyn | £8.00 |
| 2139 | Amazon | Llyfr am y Rhyl | £10.94 |
| 2140 | Delwedd Ltd | Ailddylunio'r wefan a ffotograffeg | £4,617.73 |
| 2141 | HSBC | Ffi blynyddol y cerdyn credyd | £32.00 |
| 2142 | Scottish Power | Cyflenwad trydan i'r goleuadau Nadolig – mis Hydref 2025 | £262.09 |
| 2143 | Go to My PC | 3 tanysgrifiad i'r staff @ £208.80 yr un | £626.40 |
| 2144 | Cyngor Sir Ddinbych | Rhent tir blynyddol y Gerddi Coffa | £13.50 |
| 2145 | Cyngor Sir Ddinbych | Rhent tir blynyddol cysgodfan bws Tir Morfa | £1.00 |
| 2146 | Scottish Power | Cyflenwad trydan i'r goleuadau Nadolig – mis Tachwedd 2025 | £287.75 |
| 2147 | MDM Gardening & Lawn Services | Trin y lawnt yn y Gerddi Coffa | £42.00 |
| 2148 | Cyngor Sir y Fflint | Tri thocyn i Ginio Elusennol y Cadeirydd, 6 Mawrth 2026 | £120.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£6,151.41** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**119. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**120. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**121. Y GYLLIDEB A PHRAESEPT 2026/27**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad mewn cyfrinachedd ganddi hi a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn argymell dod â'r gyllideb amlinellol ddrafft i gyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror neu fis Mawrth, yn dilyn cynnal y gweithdy a drefnwyd ym mis Ionawr 2026 i godi praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

***PENDERFYNWYD*** *codi praesept o £580,000 ar Gyngor Sir Ddinbych, sy'n golygu tâl i eiddo Band D o £58.15 (dim cynnydd o'i gymharu â 2025/26) a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.*

**122. Y STRATEGAETH GYFATHREBU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ganddi hi a'r Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Chymorth Gweinyddol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), a gwahoddodd Mrs Wheatley i arwain yr aelodau drwy'r ddogfen.

Esboniodd Mrs Wheatley y byddai'r strategaeth ddrafft yn cael ei defnyddio fel cyfrwng rhagweithiol i gyfathrebu'r gwaith a wneir gan y Cyngor Tref

[Gadawodd y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones y cyfarfod am 6.30pm]

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer 2026.*

**123. POLISI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Ymhellach i gofnod rhif 109 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2025, ac yn unol â pholisi mabwysiedig y Cyngor Tref, hysbysodd Clerc y Dref nad oedd wedi derbyn unrhyw enwebiadau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y wybodaeth.*

**124. COFNODION CYFRINACHOL**

Cyflwynwyd y cofnodion isod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau ac er mwyn cymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol - 11 Rhagfyr 2025 – Cofnodion rhifau 9 - 15

Tynnodd Clerc y Dref sylw'r aelodau at y penderfyniad a wnaed gan yr Is-bwyllgor i argymell cymeradwyo cadwyn y Maer newydd, hyd at bris o £5,500. Fodd bynnag, oherwydd cynnydd ym mhris aur ers hynny, roedd y pris wedi cynyddu'n sylweddol i ychydig o dan £9,000, yn cynnwys y ces cludo.

Roedd yr aelodau'n ymwybodol fod hyn yn wariant arwyddocaol mewn cyfnod o heriau ariannol parhaus i lawer o drigolion y Rhyl. Roeddynt hefyd yn ymwybodol iawn fod y gadwyn bresennol yn 25 oed ac nad oedd gwneud rhagor o waith trwsio yn gynaliadwy, yn ymarferol ac o ran bod yn gost effeithiol yn y tymor hirach.

Yn dilyn cryn drafodaeth ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cofnodion a derbyn y dyfynbris ar gyfer y gadwyn a ddewiswyd.*

**125. GWYLIAU'R NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau'r trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol iddi hi, Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r aelodau a ganlyn yn ystod y cyfnod rhwng 17 Rhagfyr 2025 a 21 Ionawr 2026.

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Eitemau'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol |
| Unrhyw fusnes arall | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau.*

**126. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: ……………….………..